Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru

South Wales
Fire and Rescue Service



GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU

# **Cynllun Strategol** 2020-2030

1AF EBRILL 2021 - DIWEDDARIAD BLWYDDYN DAU

CODI YMWYBYDDIAETH | LLEIHAU RISG

# Cynnwys

Rhagair ... 3
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ... 4
Ein Themâu Strategol ... 6
- Eich Cadw'n Ddiogel ... 7
- Ymateb i'ch Argyfwng ... 9
- Gweithio â Phartneriaid ... 11
- Defnyddio Technoleg yn Dda ... 13
- Ymgysylltu a Chyfathrebu ... 15
- Gwerthfawrogi ein Pobl ... 18
- Diogelu ein Hamgylchedd ... 21
- Parhau i Weithio'n Effeithiol ... 24

Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus ... 26
Amdanom Ni ... 27
Yn 2019-2020 ... 28
Dangosyddion Perfformiad Strategol ... 29
Ein Cyllideb 2021-2022 ... 30
Costau Gweithwyr ... 31
Pam Rydym yn Cynllunio ... 32
Sut Rydym yn Cynllunio - Ein Proses Cynllunio ... 33
Sut Rydym yn Cynllunio - Deddfwriaeth Allweddol ... 33
Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol ... 34
Lleihau Carbon ... 35
Yr Iaith Gymraeg a Lleisiwch eich Barn ... 36

# Rhagair



**Huw Jakeway QFSM**
Prif Swyddog Tân
Gwasanaeth Tân ac Achub
De Cymru



**Cynghorydd Tudor Davies MBE**
Cadeirydd
Awdurdod Tân ac Achub
De Cymru

Croeso i ddiweddariad cynnydd blynyddol cyntaf ein Cynllun Strategol 2020-2030 wrth i ni barhau i ganolbwyntio ar gyflawni ein Themâu a'n Hamcanion Strategol.

Mae ein cynllun yn pennu cyfeiriad y Gwasanaeth ac ar hyd y diweddariad hwn fe welwch sut rydym wedi parhau i wneud cyfraniad cadarnhaol at leihau risg a gwneud ein cymunedau'n fwy diogel.

Y llynedd, yn ystod pandemig Covid-19 ac yn ystod cyfyngiadau'r cyfnod cle, gwnaethom barhau i ddarparu ein gwasanaethau rheng flaen i'n cymunedau. Fe wnaethom gefnogi ein cydweithwyr rheng flaen yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol ac Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru. Gwnaethom hefyd ddatblygu dulliau newydd ac arloesol o ddarparu rhai o'n gwasanaethau ataliol, megis archwiliadau diogelwch yn y cartref.

Eleni byddwn yn ychwanegu amcan newydd, sef "Datblygu ffyrdd newydd o weithio".

Bellach, rydym yn gweithredu'n wahanol iawn i'r ffordd y gwnaethom cyn y pandemig a bydd llawer o'r ffyrdd newydd hyn o weithio yn parhau ar ôl i'r cyfyngiadau leihau hyd y gellir ei ragweld ar hyn o bryd.

Er mwyn sicrhau bod cynnydd yn erbyn ein holl amcanion yn parhau ar y trywydd cywir, mae gwaith y Gwasanaeth wedi bod yn destun nifer o gyfarfodydd craffu gan ein Hawdurdod Tân ac Achub a'i is-bwyllgorau yn ystod y flwyddyn.

Hoffem fanteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i'n holl staff, gwirfoddolwyr ac asiantaethau partner am eu cyfraniad a'u cefnogaeth yn ystod y 12 mis blaenorol digynsail ac edrychwn ymlaen at gydweithio gyda chi yn ystod 2021-2022.

Gobeithiwn y byddwch chi'n mwynhau darllen ein cynllun a chroesawn eich adborth.

# Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Saith Nod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015




| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cymru gydnerth | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru lewyrchus | Cymru iachach | Cymru sy'n fwy cyfartal | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang |

Egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD yw: **"Dylai pob Gwasanaeth Cyhoeddus weithredu mewn modd sy'n chwilio i sicrhau bydd gofynion y presennol yn cael eu cwrdd heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion hwy"**

Mae DLI CD hefyd yn adnabod y pum ffordd ganlynol o weithio sy'n rhaid i ni ystyried a gweithredu yn unol â hyn wrth gynllunio a gwneud penderfyniadau.

- Pwysoli anghenion byrdymor ag anghenion **hirdymor**
- Rhoi adnoddau tuag at **atal** problemau
- Defnyddio dull o **gyfannu**, yn gwrthbwyso anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol
- **Cydweithredu** ag eraill i helpu cwrdd ag amcanion llesiant
- **Cynnwys** eraill i adlewyrchu amrywiaeth ardal



| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Hirdymor** | **Atal** | **Cyfannu** | **Cydweithredu** | **Cynnwys** |


SOUTH WALES
TÂN FIRE

# Ein Themâu Strategol

| Thema Strategol | Yr hyn a wnawn | Thema Strategol | Yr hyn a wnawn |
|---|---|---|---|
| **Eich Cadw'n Ddiogel** | Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein ffonio. | **Ymgysylltu a Chyfathrebu** | Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol. |
| **Ymateb i'ch Argyfwng** | Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch. | **Gwerthfawrogi ein Pobl** | Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth. |
| **Diogelu ein Hamgylchedd** | Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu i gynnal y ddaear ar gyfer genhedloedd y dyfodol. | **Defnyddio Technoleg yn Dda** | Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi |
| **Gweithio â Phartneriaid** | Gan weithio gyda'r naw BGC o fewn De Cymru  a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion. | **Parhau i Weithio'n Effeithlon** | Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol. |

# Eich Cadw'n Ddiogel

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

- Cymru gydnerth
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru iachach
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

## Beth yw ystyr hyn?

Byddwn yn darparu ataliad ac amddiffyniad rhag argyfyngau er mwyn cadw'n cymunedau'n ddiogel. Mae tystiolaeth yn awgrymu y bu ein gweithgareddau ataliol yn hynod ddylanwadol wrth leihau argyfyngau yn ddiweddar – tuedd yr ydym yn awyddus i'w gynnal a'i wella. Un o sbardunau allweddol ein rhaglen ymgyrchoedd ataliol yw'r wybodaeth rydym yn caffael gan sefydliadau eraill ac yn rhannu â nhw, sy'n caniatáu i ni ddatblygu ymgyrchoedd penodol ar sail tystiolaeth ystadegol.

Canolbwyntio ar waith atal er mwyn lleihau'r angen i chi ein ffonio

### Byddwn yn eich cadw'n ddiogel wrth:

- Leihau effaith galwadau ffug ar ein hadnoddau
- Leihau nifer y tanau yn y cartref a deall yr ymddygiadau sy'n eu hachosi
- Leihau nifer y gwrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd (GTFf)
- Leihau nifer y tanau bwriadol
- Wella diogelwch mewn dŵr ac o'i gwmpas
- Wella diogelwch tân mewn adeiladau yn ein cymunedau

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Cyflwyno arweiniad i'r holl orsafoedd mewn perthynas â'r camau y dylid eu cymryd bob tro'r ydym yn mynychu Arwyddion Tân Diangen (ATD)
- Gwahodd holl ddioddefwyr cymwys Tanau Damweiniol mewn Anheddau (TDA) ers y 1af o Orffennaf 2020, i gael ymweliad GDDT (Gwerthusiad Dysgu yn Dilyn Tân)
- Gwireddu gostyngiad diwedd blwyddyn, gan gynnwys tanau bwriadol a GTFf
- Cyflwyno hyfforddiant ymwybyddiaeth o ddŵr ar ein holl gyrsiau diffoddwyr tân
- Lansio prawf ar-lein Diogelwch Tân yn y Cartref cyflym a syml i'ch galluogi i adolygu pa mor ddiogel rydych chi yn eich cartref

- Ymgysylltu â'n cymunedau drwy ein sianeli cyfryngau cymdeithasol yn ystod pandemig Covid-19, gan nad oedd modd cyflawni gwaith atal wyneb yn wyneb
- Newid ein dull o gyflwyno archwiliadau Diogelwch Tân yn y Cartref mewn amgylchedd Covid-19

## Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Cydweithio â phartneriaid mewnol ac allanol i leihau ATD
- Gwerthuso gwybodaeth gan GDDT i hysbysu gweithgareddau addysgu ac atal tân a dargedwyd
- Galluogi staff gorsafoedd i gynnal ein Gwiriad Diogelwch yn y Cartref newydd
- Archwilio mentrau newydd ar gyfer addysg a gwaith GTFf gyda phartneriaid diogelwch ar y ffyrdd i leihau GTFf
- Casglu gwybodaeth gymunedol leol a mabwysiadu dull partner i ostwng tanau bwriadol
- Ffurfio dull aml-bartner sydd wedi'i dargedu at risg i ostwng tanau mewn cartrefi, tanau bwriadol a GTFf
- Cynhyrchu ymgyrch TDA Cymru Gyfan sy'n canolbwyntio ar ddiogelwch coginio, trydanol a chanhwyllau
- Trefnu ymweliadau gan ddiffoddwyr tân i adeiladau i adnabod a lliniaru risgiau a choladu gwybodaeth risg safle penodol (GRSP) i sicrhau diogelwch staff
- Cefnogi camau gweithredu sy'n deillio o'r prosiect adeiladau tŵr uchel
- Gwella ansawdd y data a gesglir gennym yn dilyn digwyddiad i adnabod a thargedu dinasyddion o risg uwch o fewn ein cymunedau
- Adnabod gwelliannau gweithredol y gellir eu gwneud o ganlyniad i Strategaeth Dŵr Cymru Gyfan
- Cyflenwi'r prosiect Tracffordd yr Afon Wysg a chydweithio â Diogelwch Dŵr Cymru i leihau digwyddiadau sy'n ymwneud â dŵr

# Ymateb i'ch Argyfwng

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru iachach

### Beth yw ystyr hyn?

Byddwn yn casglu gwybodaeth allweddol gan y galwr ac yn danfon offer a phobl briodol yn unol â gofynion y digwyddiad. Byddwn yn cefnogi'r galwr yn ystod ei argyfwng a darparu cymorth parhaol i'r criwiau sy'n mynychu ar hyd y digwyddiad er mwyn sicrhau canlyniad diogel.

Sicrhau ein bod ni'n ymateb yn gyflym ac yn effeithiol pan fydd ein hangen arnoch

### Byddwn yn ymateb i'ch argyfwng wrth:

- Ymateb yn gyflym pan fydd ein hangen arnoch
- Wneud popeth o fewn ein gallu i sicrhau bod ein System Ddyletswydd tân Ar Alwad (SDd AA) ar gael
- Hyfforddi ein diffoddwyr tân, staff rheoli tân brys a staff eraill i ymateb i risgiau cyfredol a risgiau'r dyfodol o fewn ein cymunedau

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Sicrhawyd bod nifer y diffoddwyr tân Ddyletswydd Gyflawn ar beiriannau islaw ein trothwy isafsymiol
- Cynyddu argaeledd ein peiriannau ar alwad o 11.5%
- Monitro cymhwysedd ein personél gweithredol drwy'r broses ymchwilio gorsafoedd
- Coladu'r holl adborth a gynhyrchwyd o ganlyniad i ymarferion ac ymgyrchoedd efelychu er mwyn adnabod yr arfer orau ynghyd â dysgu a gwella

### Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Canolbwyntio ar gynyddu cyfraddau cadw ac argaeledd diffoddwyr tân ar alwad
- Sicrhau bod hydwythedd ar waith i gefnogi cyfnodau o weithgarwch cynyddol o fewn Cyd-Reoli Tân (CRT)

- Gwella lleoliad digwyddiadau a gwybodaeth am bresenoldeb CRT
- Ystyried system gontractau newydd ar gyfer cronfa strategol wrth gefn (diffoddwyr tân llawn amser yn llenwi bylchau lle mae prinder criwiau mewn gorsafoedd tân ar alwad) er mwyn gwella argaeledd ar alwad
- Gwella'r llwybr hyfforddi o lefel recriwtio cychwynnol i ddiffoddwr tân ar alwad cymwys
- Adolygu sgiliau craidd cymhwystra i'n holl staff gweithredol i fynd i'r afael â risgiau sy'n datblygu i'r dyfodol
- Dyrchafu gallu rheolwyr gorsafoedd i ysgogi diwylliant sy'n seiliedig ar berfformiad a gweithredu'r broses adolygu bersonol newydd
- Cynllunio ymarferion hyfforddi, yn cynnwys 10 neu fwy o beiriannau tân, ar gyfer safleoedd risg uchel cydnabyddedig i ddatblygu Rheolwyr Digwyddiadau Lefel 2 a 3
- Sicrhau bod darpariaeth yr hyfforddiant yn adlewyrchu'r Canllawiau Gweithredol Cenedlaethol gan sicrhau cysondeb ar draws y Gwasanaeth ac ar sail GTA Cymru Gyfan

# Gweithio â Phartneriaid

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru lewyrchus

## Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn adeiladu ar hanes sefydledig o weithio gyda'n partneriaid i ddarparu gwelliannau i'n gwasanaethau mewn modd cost effeithiol. Mae gweithio gydag eraill mewn dull cydgysylltiedig yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o gyflenwi gwell canlyniadau i'n cymunedau lleol, osgoi dyblygu ymdrechion a gwario arian cyhoeddus yn ddoeth. Fel partner statudol ar bob un o'r naw BGC o fewn yr ardal rydym yn gwasanaethu, rydym yn cyflawni Cynlluniau Llesiant unigol ac yn sicrhau bod ein gweithgareddau'n gwella bywydau'r bobl yn ein cymunedau yn yr hirdymor. Byddwn yn rhannu data gyda'n partneriaid BGC i leihau digwyddiadau, cadw ein cymunedau'n ddiogel ac iach a gwneud newidiadau angenrheidiol i'n partneriaethau wrth i anghenion newydd ein cymunedau ddod i'r amlwg.

Gan weithio gyda'r naw BGC o fewn De Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu gwasanaeth tân ac achub sy'n cwrdd â'ch anghenion

### Byddwn yn gweithio gyda'n partneriaid wrth:

- Weithio gyda BGC i gefnogi ein cymunedau
- Weithio gyda'n partneriaid i gyflwyno ein gwasanaethau lle bo angen
- Adolygu a gwerthuso ein partneriaethau cyfredol

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Cydweithio ag Awdurdodau Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) a Taclo Tipio Cymru i leihau tanau bwriadol
- Darparwyd 4,560 awr / 380 shifft i'n cydweithwyr yn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans GIG yn ystod pandemig Covid-19
- Terfynwyd y trefniant rheoli CoreHR oedd arfer bod gennym ar y cyd gyda Gwasanaethau Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, er mwyn cael swyddogaethau systemau mwy penodol
- Gwirfoddolodd 100 o'n staff i gefnogi'r canolfannau brechu cymunedol ar draws Cwm Taf gyda rhai staff yn gyrru'r rhai sydd heb gludiant i'w hapwyntiadau brechu

## Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Cefnogi cydweithwyr a phartneriaid gwasanaeth brys yn ystod ac ar ôl pandemig Covid-19
- Gweithio â'n BGC a phartneriaid eraill wrth gefnogi adferiad cymunedol ôl Covid-19
- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i gyflawni'r argymhellion a wnaed o fewn y Papur Gwyn "Adeiladau Diogelach yng Nghymru"
- Gweithio gyda'r Grŵp Gwasanaethau Brys Cyfun (GGBC) i werthuso gofynion ynglŷn â galw ac ymateb ar gyfer GGBC (Mae GGBC yn tynnu ynghyd yr holl wasanaethau brys, Llywodraeth Cymru a'r Lluoedd Arfog yng Nghymru i ystyried sut i ddatblygu'u cyfraniad at amddiffyniad sifil yng Nghymru)
- Cefnogi grŵp llywio Lliniaru Hinsawdd Gwent a chymhwyso'r arfer orau perthnasol
- Gweithio gyda'r Porth Gwerth Cymdeithasol i gorffori'r mesurau cenedlaethol Themâu, Canlyniadau a Mesurau (ThCM) i'n prosesau caffael
- Datblygu'r prosiect rhannu data rhwng ein Gwasanaeth a'r ddau GTA arall Cymreig
- Cydlynu strategaeth gyda'n partneriaid gwasanaeth brys i ddatblygu cyfleoedd cyd-leoli i'r dyfodol
- Cefnogi'r cytundeb gofal iechyd i feithrin perthynas waith agosach â'r Byrddau Iechyd Lleol
- Adolygu ein cofrestr rhanddeiliaid a phartneriaethau mewn perthynas â'n rhwymedigaethau o dan y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol newydd
- Adnabod dulliau a chyfleoedd newydd i gynnal hyfforddiant ar y cyd â phartneriaid
- Archwilio partneriaethau newydd a ffyrdd arloesol o gydweithio â grwpiau tai cymdeithasol

# Defnyddio Technoleg yn Dda

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

### Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn adolygu ein defnydd o dechnoleg yn rheolaidd fel bydd y caledwedd a'r meddalwedd fwyaf priodol yn cael ei ddefnyddio i helpu eich cadw'n ddiogel. Tra bod technoleg yn parhau i ddatblygu ar gyflymder mawr, ein ffocws bob tro yw defnyddio'r dechnoleg orau i gofnodi a monitro galwadau brys, danfon cerbydau a'r criw cywir atoch a'n helpu ni  yn y lleoliadau digwyddiadau brys eu hunain. Agwedd bwysig iawn arall i ni yw adeiladu hydwythedd yn ein systemau fel eu bod yn defnyddio'r feddalwedd a'r caledwedd diweddaraf ond gyda threfniadau wrth gefn cadarn ar waith pe bai systemau'n methu.



Chwilio'n barhaus i ddefnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn gwella ein gwasanaeth i chi

### Byddwn yn defnyddio technoleg yn dda wrth:

- Ddefnyddio'r dechnoleg a'r offer mwyaf priodol i wella ein gwasanaethau
- Adolygu ansawdd a'r defnydd o dechnoleg ac offer ar draws y Gwasanaeth

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Dechreuwyd prosesau electronig ar gyfer recriwtio ac ymgeisio drwy ein gwefan
- Cofnodwyd ac olrheiniwyd archwiliadau gorsaf o fewn ein System Rheoli Gwybodaeth Busnes (SRh GB)
- Defnyddiwyd amgylchfyd rhyngweithiol Hydra a XVR On Scene Simulation i ddatblygu gwell rheolaeth o ddigwyddiadau critigol
- Cwblhawyd rhaglen adnewyddu gweinyddion
- Datblygwyd systemau a darparwyd offer i alluogi staff swyddfa i weithio gartref
- Gosodwyd gallu cynadledda Fideo ar draws ein holl ystafelloedd

## Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Archwilio i'r defnydd o dabledi symudol mewn gorsafoedd a defnyddio meddalwedd Llywio â Lloeren a ffonau clyfar ar beiriannau tân
- Diweddaru neu adnewyddu ein systemau CRT, Fflyd, E-gaffael, Rheoli Asedau a mur gwarchod y Pencadlys
- Amnewid ein cyfarpar hyfforddiant swyddfa diwedd bywyd â meddalwedd Microsoft Office 365 a chorffori gwelliannau o ran gweithio cydweithredol a heini gan ddefnyddio meddalwedd Microsoft Teams
- Adolygu datblygiadau mewn technoleg sy'n rhoi canfod a diogelwch gwell i ddogfennau
- Ymgorffori'r defnydd o feddalwedd holi barn a ddefnyddir i annog a hwyluso ymgysylltu
- Creu cynllun gweithredu ar gyfer dylunio a chyflawni ein Prosiect Mewnrwyd
- Datblygu adroddiadau mwy awtomataidd ar gyfer ein hadran Adnoddau Dynol o'n SRh GB
- Gweithredu unrhyw ganfyddiadau o'n hadolygiad i sut rydym yn modelu risg fel sefydliad
- Uwchraddio i'r fersiwn ddiweddaraf o'n systemau E-ariannol a Rheoli Fflyd Tranman
- Adolygu'r System Rheoli Asedau 24/7 a'i amnewid am ein system rheoli offer
- Dylunio a chyflawni gwelliannau i'n cynllun Adfer Trychinebau yn unol â phrosiect amnewid technoleg CRT â Heddlu De Cymru
- Ennill Achrediad Cyber Essentials Plus
- Cyflwyno modiwlau talent a rheoli presenoldeb CoreHR

# Ymgysylltu a Chyfathrebu

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru sy'n fwy cyfartal

### Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn sicrhau bod ein holl gymunedau a'n staff yn cael eu cynnwys i'n cynorthwyo i ddarparu gwasanaeth cymunedol rhagorol, wrth gynnig amrywiaeth o gyfleoedd i'n staff a'n dinasyddion i helpu saernïo ein gweithgareddau nawr ac i'r dyfodol. Byddwn hefyd yn chwilio i gaffael mwy o safbwyntiau ar sut rydym yn rhannu gwybodaeth â chi.

Sicrhau bod ein holl gymunedau a staff yn cael eu cynnwys wrth ein helpu i ddarparu gwasanaeth rhagorol.

### Byddwn yn ymgysylltu a chyfathrebu wrth:

- Gyflawni argymhellion adroddiad Buddsoddwyr mewn Pobl
- Gynnwys ein cymunedau a sicrhau bod ganddynt lais yn yr hyn a wnawn
- Helpu i gadw'n cymunedau'n ddiogel wrth Gyflwyno addysg diogelwch a mynychu digwyddiadau cymunedol

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Gynnal 24 ymweliadau gan y Prif Swyddog i orsafoedd
- Weithredu ein cynllun ymgysylltu mewnol
- Gynnal fforymau staff "SHOUT" rhithiol bob chwe wythnos a fynychwyd gan staff ar draws y Gwasanaeth
- Drafod syniadau ar gyfer dulliau cymunedol annigidol i ymgysylltu â Grŵp Cyfathrebiadau Cymru Gyfan
- Gynnwys ein staff yn ein hasesiad BMP diweddaraf. Arolygu staff a chynnal grwpiau ffocws i'n cynorthwyo i wella ein hamgylchfyd gwaith

### Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Datblygu a chyflwyno "ap" cyfathrebiadau ledled y Gwasanaeth i'r holl staff
- Sefydlu offer adrodd i olrhain ein cynnydd yn erbyn argymhellion a chynllun gweithredu newydd Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP)
- Datblygu cynllun ymgysylltu annigidol i gysylltu ag a chynnwys ein cymunedau, e.e. cerbydau bwrdd hysbysebu ar gyfer negeseuon addysgol allgymorth
- Codi ymwybyddiaeth ar hyd y Gwasanaeth a chyfathrebu â phartneriaid allanol i ennill syniadau ar gyfer lleihau carbon
- Hwyluso mwy o rannu a chyfnewid gwybodaeth rhwng ein Penaethiaid Gorsaf a'n tîm rheoli Gweithrediadau
- Cynyddu ein defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol drwy law gorsafoedd yn rhannu straeon newyddion da a negeseuon diogelwch cymunedol
- Cydweithio â'n hysgolion a'n colegau i ddarparu dulliau arloesol i addysg diogelwch tân ac ar y ffyrdd i Gyfnodau Allweddol 1-4



# Gwerthfawrogi ein Pobl

## Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n fwy cyfartal

Cymru iachach

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

### Beth yw ystyr hwn?

Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi ein pobl fel yr ased mwyaf pwysig wrth gyflawni ein hamcanion. Drwy law ein pobl y darperir gwasanaeth cymunedol ardderchog. I lwyddo, mae angen y bobl gywir gyda'r sgiliau a gwerthoedd cywir yn y man cywir ar yr adeg gywir. Bydd ein harweinwyr yn hyrwyddo ein diwylliant, yn byw yn unol â'n gwerthoedd ac yn hwyluso gweithlu uchel ei berfformiad sy'n dalentog, yn fedrus, yn amrywiol ac yn awyddus. Byddwn yn datblygu dull pellgyrhaeddol i wella llesiant gweithwyr i ostwng absenoldeb oherwydd salwch a chanolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a ffitrwydd. P'un ai'n weithiwr neu'n wirfoddolwr i'r Gwasanaeth, mae gan bawb rôl allweddol wrth gadw'n cymunedau'n ddiogel.

Cynnal gweithlu amrywiol sy'n cynrychioli eich cymuned, a hyfforddwyd yn dda ac sy'n ymroddedig i gyflawni ein gwasanaeth.

### Byddwn yn gwerthfawrogi ein pobl wrth:

- Ddenu gweithlu sy'n adlewyrchu ac yn cynrychioli ein cymunedau
- Ddatblygu ein pobl wrth adnabod cyfleoedd hyfforddi a datblygu
- Gefnogi ein pobl i deimlo'n dda, iach a'n hapus yn y gwaith

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Adolygu ein hymgyrch recriwtio 2019-2020 SDdG. Bydd y prif bwyntiau dysgu a nodir yn goleuo ein harfer mewn ymgyrchoedd a gweithgareddau estyn allano fewn ein cymunedau yn y dyfodol
- Ddatblygu proses Adolygu Personol newydd
- Integreiddio camau o'r Cynllun Gwasanaeth Tân Cynhwysol i'r rhaglen BMP, y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, y Fforwm Staff, a'r Cynllun Pobl
- Benodi 20 o ddiffoddwyr tân newydd allan o 67 o recriwtiaid oedd naill ai'n siaradwyr Cymraeg rhugl, neu ar lefel Canolradd neu'n dysgu Cymraeg

## Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Cynnwys staff gorsafoedd tân wrth adnabod a chefnogi darpar ddiffoddwyr tân a gwirfoddolwyr i'r dyfodol
- Sefydlu strategaeth glir i ddenu a chadw staff a dod yn gyflogwr dewisol gan gynnwys y grwpiau hynny sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn gyfredol o fewn ein Gwasanaeth
- Monitro data recriwtio a chadw staff i sicrhau bod ein gweithgareddau recriwtio'n canolbwyntio ar y meysydd cywir
- Sicrhau bydd cydraddoldeb ac amrywiaeth wedi'i gorffori'n ddwfn ym mhob un o'n polisïau a gweithdrefnau AD allweddol
- Lansio a chyflwyno'r broses Adolygiad Personol newydd i'r staff cyfan
- Adnabod proses mapio sgiliau i'n pobl ynghyd â datblygu potensial pob aelod staff i'w heithaf
- Adnabod, datblygu a chadw talent uchel eu perfformiad a darpar arweinwyr ein Gwasanaeth
- Corffori ein strategaeth lles ar draws y Gwasanaeth a darparu pecyn hyfforddi rheolwyr llinell ar gyfer amrywiaeth ac iechyd galwedigaethol i gefnogi llesiant corfforol a meddyliol ein staff
- Adolygu ein cyfleusterau lles, mannau lles ac amgylcheddau gwaith i sicrhau gweithle iach a diogel i staff ac ymwelwyr
- Darparu amgylchedd diogel ac iach i'n pobl sy'n cefnogi gweithgareddau iach, diogelwch a lles yn y gweithle
- Datblygu cyfres o bolisïau a gweithdrefnau AD i staff CRT sy'n cydnabod ac sy'n ystyrlon o delerau ac amodau cyflogaeth GTA Canolbarth a Gorllewin Cymru


CK66 CTF

# Diogelu ein Hamgylchedd

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

Cymru iachach

Cymru gydnerth

Cymru o gymunedau cydlynus

## Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn cynnal ein gweithgareddau mewn ffordd sy'n helpu cynnal y blaned ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Cynnal ein gweithgareddau mewn modd fydd yn helpu i gynnal y ddaear ar gyfer genhedloedd y dyfodol.

### Byddwn yn amddiffyn ein hamgylchedd wrth:

- Leihau ein defnydd o ddeunyddiau untro
- Archwilio i'r defnydd o gerbydau trydan
- Lleihau maint yr ynni a ddefnyddir gennym yn ogystal â'n hôl troed carbon
- Ystyried sut mae ein gweithgareddau'n effeithio'r amgylchedd

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Dyrannwyd poteli dŵr alwminiwm personol i'n holl aelodau staff a gosod peirianau oeri dŵr mewn gorsafoedd tân
- Gosodwyd 24 man gwefru cerbydau trydan yn y Pencadlys a lleoliadau eraill o fewn y Gwasanaeth
- Cyflwynwyd seminarau a chyrsiau sefydlu drwy law fideo gynadledda sy'n cyfyngu teithio a symudiadau cerbydau

### Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Gweithredu'r camau a gynhwysir yn ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023
- Cofnodi, monitro, adrodd a chyhoeddi ein heffeithiau carbon, treuliant ynni a'r gwastraff a gynhyrchir
- Gweithredu seilwaith gwefru cerbydau trydan ychwanegol ar draws y Gwasanaeth

- Archwilio mwy o gyfleoedd i fynd yn “ddi-bapur” a sicrhau bydd eitemau hyrwyddo/marchnata yn gyfeillgar i’r amgylchedd
- Archwilio gostyngiadau pellach o ran teithio anhanfodol
- Ystyried defnyddio dŵr glaw a dŵr tanciau peiriannau i gyflawni cynaliadwyedd dŵr
- Lleihau oedran ein peiriannau tân rheng flaen i 12 oed i leihau’r effaith ar yr amgylchedd a gwella diogelwch
- Datblygu porth adrodd i’n haelodau o’r Awdurdod Tân
- Gweithredu datrysiadau ynni gwyrdd lle bo’n briodol ac ymgorffori cynaliadwyedd i’n proses ddylunio


F1

# Parhau i Weithio'n Effeithlon

Cefnogi'r Nodau Llesiant canlynol:

Cymru lewyrchus

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Cymru iachach

## Beth yw ystyr hwn?

Byddwn yn atebol amlwg i'r cyhoedd wrth sicrhau bydd ein cymunedau'n deall y risgiau o fewn eu hardal. Byddwn yn hysbysu'r cyhoedd o'r hyn rydym yn gyfrifol am ei ddarparu drwy law trefniadau partner a sut rydym yn bwriadu gwneud hyn. Mae'r Cynllun Strategol hwn yn rhoi cyfle i ddinasyddion ddeall ein hamcanion a hefyd yn rhoi cyfle i gyfrannu at y cynllun hwn wrth gynnig adborth. Bydd ein Cynllun(iau) Gwella Blynyddol yn hysbysu'r cyhoedd o'r llwyddiant a gafwyd gennym wrth gyflawni'r amcanion hyn a chwmpas cynnydd pellach. Bydd pwysau sylweddol ar gyllid cyhoeddus yn parhau i'r dyfodol rhagweladwy ac am hyd y cynllun hwn. Byddwn yn chwilio am bob cyfle posib i adnabod arbedion effeithlonrwydd a chadw costau i lawr, wrth gyflawni ein dyletswyddau craidd yn effeithiol. Ein nod yw eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth. Wrth i'r Gwasanaeth symud o ymateb i bandemig Covid-19 i gyfnod o adfer, byddwn yn sicrhau bydd y ffyrdd newydd a gwell o weithio, a ddatblygwyd ar hyd yr argyfwng, yn cael eu hymgorffori'n llwyddiannus o fewn ein gweithrediadau dyddiol.

Sicrhau bod ein Gwasanaeth yn rhoi gwerth am arian ac yn amlwg yn atebol.

### Byddwn ni'n parhau i weithio'n effeithlon wrth:

- Fod yn eglur ac yn atebol i'r cyhoedd
- Eithafu gwerth am arian wrth wella ein gwasanaeth
- Ddatblygu ffyrdd newydd o weithio

### Beth wnaethom yn 2020-2021

- Datblygwyd archwiliadau gwybodaeth llywodraethiant gorsafoedd rhithiol
- Cwblhawyd cyfweliadau gwerthuso swyddi staff corfforaethol
- Bydd asesiad o faterion tâl bwlch rhwng y rhywiau yn cael ei bennu a'i adrodd i'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth
- Parhawyd i sicrhau mynychiad mwyafsymiol mewn cyrsiau hyfforddi
- Defnyddiwyd technoleg i gefnogi gweithio o gartref a rotâu i sicrhau bydd nifer y staff sy'n mynychu ein gwefannau yn ddiogel
- Cwblhawyd ein hasesiadau risg Covid-19 a'u gwneud ar gael i staff ar ein mewnrwyd

## Beth wnawn ni yn 2021-2022

- Datblygu dull i asesu pa effaith mae ein dewisiadau prynu a chyflenwi yn cael ar y sawl sydd dan anfantais ac sy'n agored i niwed o fewn ein cymuned
- Cydlynu strategaeth â'n partneriaid gwasanaeth brys i ddatblygu cyd-leoliadau i'r dyfodol
- Gweithredu canlyniadau a phenderfyniadau o'r ymarferiad gwerthuso swydd
- Darogan gofynion ariannol a rheoli cyllidebau adrannol yn unol ag anghenion y Gwasanaeth
- Archwilio dulliau o fesur, monitro ac adrodd perfformiad adrannol, wedi'i gefnogi gan ddefnydd technoleg
- Adolygu trefniadau lesio cyfredol a'u hamnewid â mecanweithiau adennill costau diwygiedig
- Gweithredu rhaglen amnewid cerbydau hirdymor gwell i'n fflyd ac adolygu effeithlonrwydd ein tanciau tanwydd
- Adolygu strwythur, llywodraethiant, lleoliad, patrymau gwaith a rotâu tîm hyblyg y CRT o fewn CCRT
- Gweithredu penderfyniad y llys parthed trefniadau pigfeinio Cronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân a chyfathrebu'n glir i'r staff a effeithiwyd
- Adolygu'r modd mae rhestru hyblyg yn darparu cwmpasiad tân 24/7

# Ein Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus

Rydym yn parhau i weithio gyda'r naw Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) yn ein hardal. Mae gan Fwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus gyfrifoldeb i baratoi a chyhoeddi cynlluniau llesiant lleol ac adrodd ar gynnydd yn flynyddol.


Rydym wedi ymroi i gwrdd â'n hymrwymiadau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Ar bob adeg, byddwn yn ystyried goblygiadau hirdymor ein gweithredoedd a sut gallwn fod yn aelodau effeithiol o'r naw BGC, yn cydweithredu a chymryd agwedd gyfannol at ddarparu gwasanaethau er mwyn helpu pobl i deimlo'n ddiogel ac iach yn eu bywydau o ddydd i ddydd.


Mae ein gwaith gyda'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus yn arddangos ein hymrwymiad at egwyddor datblygiad cynaliadwy DLI CD.

Pan wnaethom ddatblygu ein themâu ac amcanion strategol, fe wnaethom ystyried saith nod y Ddeddf a sicrhau ein bod yn cymhwyso'r pum ffordd o weithio: - meddwl hirdymor, atal, cyfannu, cydweithredu a chynnwys.

Fe wnaethom adnabod nifer o gamau sy'n cyfrannu at gyflawni'r saith nod wrth ddiffinio ein wyth thema ac amcan strategol ar gyfer 2020-2021 a thu hwnt. Byddwn yn monitro a mesur ein cynnydd tuag at yr amcanion hyn fel rhan o'n prosesau cyfredol.


Cliciwch ar yr eicon perthnasol ar gyfer cynllun ac amcanion lles y BGC ar gyfer eich ardal.

























# Amdanom Ni

**10** o Awdurdodau Lleol

**1,100** o filltiroedd sgwâr

tua **661,000** o aelwydydd

tua **1.5** miliwn o bobl

yn cynnwys **783** diffoddwr tân Llawn Amser

**557** diffoddwr tân Ar Alwad

**353** Staff Cynnal

**44** Staff Ystafell Rheoli

Mewn cysylltiad â tua **35,000** o adeiladau busnes

# Yn 2019-2020, fe wnaethom ni:

ddelio â **33,046** o alwadau brys

dderbyn galwad i fynychu **681** o danau damweiniol yn y cartref

dderbyn **418** o alwadau ffug maleisus

o'r rhain adnabuwyd **118** gan Reoli Tân eu bod yn ffug

ymateb i **16,904** o ddigwyddiadau, lle'r oedd

**5,482** yn danau

**3,564** yn argyfyngau heb fod yn dân

**7,858** yn alwadau ffug

fynychu **420** o danau cerbyd bwriadol

**995** o wrthdrawiadau traffig ar y ffyrdd gyda

**147** o'r rhain ynghlwm â datglymu pobl

gynnal **991** o ymweliadau CA1-4 ag ysgolion

yn ymgysylltu â **34,460** o bobl ifanc

cynhaliwyd **15,837** Archwiliadau Diogelwch yn y Cartref

cynhaliwyd **862** archwiliad diogelwch tân

Rydym yn darparu: **ataliad**, **diogelwch** ac **ymateb**






**24** awr y dydd

**7** diwrnod yr wythnos

**365** diwrnod y flwyddyn

**90**C **y pen bob wythnos**


# Dangosyddion Perfformiad Strategol

| | Blwyddyn Ariannol 16-17 | Blwyddyn Ariannol 17-18 | Blwyddyn Ariannol 18-19 | Blwyddyn Ariannol 19-20 | Blwyddyn Ariannol 20-21* | Tuedd 4 Blynedd | Targed Blwyddyn Ariannol 21-22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tanau a fynychwyd | 5,798 | 5,793 | 6,897 | 5,482 | 5,383 |  | 5,759 |
| Galwadau ffug a fynychwyd | 8,191 | 7,685 | 7,847 | 7,858 | 8,189 |  | 7,974 |
| Gwrthdrawiadau Traffig ar y Ffyrdd a fynychwyd | 1,179 | 1,139 | 1,112 | 995 | 635 |  | 992 |
| Galwadau Gwasanaeth Arbennig a fynychwyd | 2,147 | 2,623 | 2,062 | 2,569 | 2,270 |  | 2,364 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o holl danau | 92 | 67 | 71 | 84 | 40 |  | 66 |
| Marwolaethau ac Anafiadau sy'n deillio o danau damweiniol | 74 | 58 | 55 | 64 | 33 |  | 59 |
| Canran y Tanau mewn Anheddau a gynhwyswyd o fewn yr ystafell lle y'u tarddwyd | 84.80% | 83.70% | 82.50% | 84.30% | 82.56% |  | 85.00% |

* Data'n gywir ar Fawrth yr 22ain 2021, yn amodol ar newid.


# Ein Cyllideb 2021-2022

Gwnaed cyfraniadau i hyn gan yr awdurdodau lleol rydym yn gwasanaethu:  Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Caerdydd, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Casnewydd, Rhondda Cynon Taf, Torfaen a Bro Morgannwg.



# Costau Gweithwyr

Dosberthir costau gweithwyr o £51,503,606 ar draws ein holl staff fel y dangosir isod.




***Staff Eraill** yn cynnwys goramser, teithio a chostau eraill sy'n ymwneud â staff.

# Pam Rydym yn Cynllunio

Ar bob adeg rydym yn ceisio gwella'r gwasanaeth rydym yn darparu i chi ac i reoli'r risgiau drwy law gweithio mewn partneriaeth a'n gweithgareddau atal, amddiffyn ac ymateb. Yn ystod ein cylch cynllunio blynyddol, rydym yn cynnal diwrnodau cynllunio â'n Uwch Dîm Rheoli i ystyried pob risg Tân ac Achub perthnasol a all effeithio cymunedau De Cymru i bennu ffyrdd lle gallwn weithio'n effeithiol i atal y risgiau hyn rhag niweidio'r rhai hynny o fewn ein cymunedau.

Rydym hefyd yn ystyried ein cyllidebau a'r cyfreithiau sy'n ein heffeithio i sicrhau ein bod yn canolbwyntio ein gwaith yn y meysydd cywir. Yna, rydym yn datblygu cynlluniau mwy manwl ar gyfer pob blwyddyn sy'n troi'n amcanion i ni. Rydym yn ymgynghori â'n staff, ein cymunedau a'n partneriaid cyn cwblhau ein hamcanion.

Rhennir ein hamcanion yn dasgau cynllunio busnes ac rydym yn derbyn adroddiadau rheolaidd ar ein cynnydd yn erbyn y tasgau hyn i'n Hawdurdod Tân ac Achub.

Cyhoeddir yr adroddiadau hyn ar ein gwefan a gellir eu cyrchu **fan hyn**

**Ymgynghoriad ac Ymgysylltiad**

Bob blwyddyn rydym yn holi ein staff, y cyhoedd a'n partneriaid i asesu'u cytundeb a'u safbwyntiau ar ein hamcanion arfaethedig ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. Eleni, cynhaliwyd ein harolwg rhwng yr 23ain o Hydref 2020 a'r 13eg o Ionawr 2021.

Y canlyniadau allweddol oedd:

- Ymatebodd 161 o bobl i'r holiadur. Ymatebodd 156 o'r rhain i'r fersiwn Saesneg, gyda phump yn ymateb i'r fersiwn Gymraeg.
- Mae cytundeb cryf â'n Hamcanion arfaethedig ar gyfer 2021/2022. Mae ymatebion yn dynodi bod ein cyhoedd a'n partneriaid yn cytuno'n gryf ag Amcanion arfaethedig GTADC ar gyfer 2021-2022.
- Cytunodd 89% o atebion â'n hamcanion arfaethedig. Ymysg aelodau'r Cyhoedd, y trydydd grŵp mwyaf o ymatebwyr, roedd 98% o gytundeb â'r amcanion arfaethedig ar gyfer 2021-2022.
- Roedd 58% o ymatebwyr yn staff a gyflogwyd gan Wasanaeth Tân ac Achub De Cymru ac roedd 21% yn aelodau'r cyhoedd. Roedd yr ymatebwyr sy'n weddill naill ai'n gweithio i gyrff cyhoeddus eraill neu'n dewis peidio â datgan. Roedd 105 o'r bobl a atebodd y cwestiwn yn canfod y cynllun yn hawdd i'w ddeall.

# Sut Rydym yn Cynllunio

Mae'r diagramau isod yn dangos sut mae hyn i gyd yn cyd-fynd fel fframwaith yn y Gwasanaeth.

## Ein Proses Gynllunio

1. Cadarnhau Themâu Strategol a chynnig amcanion i'ch helpu i'ch cadw'n ddiogel a'u gweithredu ar ôl ymgynghoriad.
2. Cynnal diwrnodau cynllunio i adnabod tasgau cynllun busnes i'w cyflawni ar ein Themâu a'n Amcanion Strategol.
3. Llwytho'r tasgau hyn i'n System Rheoli Busnes erbyn mis Ebrill bob blwyddyn.
4. Diweddaru cynnydd ein tasgau cynllunio busnes bob chwarter a chynhyrchu adroddiadau i Aelodau ein Hawdurdod Tân yn ôl y gofyn.

## Deddfwriaeth Allweddol

Mae'r diagram hwn yn dangos y ddeddfwriaeth allweddol yr ydym yn ei hystyried wrth gynllunio a'r cysylltiadau rhyngddynt.

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015)
- Y Fframwaith Tân ac Achub Cenedlaethol (2016)
- Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) (2009)
- Deddf Gwasanaethau Tân as Achub (2004)
- Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol (2021)
- Deddf Cydraddoldeb (2010) a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

**Themâu Strategol**

**Amcanion Busnes**

**Tasgau Cynllun Busnes**

**Adolygiadau Personol**

# Y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol

Daw'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol i rym ar yr 31ain o Fawrth 2021 a bydd yn allweddol i gefnogi'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Nod y ddyletswydd yw sicrhau gwell canlyniadau i'r sawl dan anfantais economaidd-gymdeithasol. Bydd yn annog gwneud penderfyniadau gwell ymhlith sefydliadau cyrff cyhoeddus rhestredig, gan sicrhau canlyniadau mwy cyfartal.

Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn cyfeirio at y sawl sy'n byw mewn amgylchiadau cymdeithasol ac economaidd llai ffafriol nag eraill o fewn yr un gymdeithas.

Fel corff cyhoeddus sy'n uffuddhau i'r ddyletswydd, mae angen i ni ystyried sut gall ein penderfyniadau strategol wella anghydraddoldeb canlyniadau i bobl sy'n dioddef anfantais economaidd-gymdeithasol.

Mae cynnwys ein cymunedau yn y broses o wneud penderfyniadau yn allweddol i sicrhau bod penderfyniadau'n iawn yn ogystal â sicrhau bod y penderfyniadau hynny'n deillio ar ganlyniadau cadarnhaol. Byddwn yn ystyried tystiolaeth ac effaith bosibl, deall barn ac anghenion y sawl y mae'r penderfyniad yn effeithio arnynt gan groesawu herio a chraffu.


Datblygodd ein Gwasanaeth strategaethau a chynlluniau eraill sy'n cefnogi cyflawni ein Cynllun Strategol cyfansymiol. Gellir canfod y cyhoeddiadau hyn **yma**.

# Lleihau Carbon

Nod ein Cynllun Lleihau Carbon 2020-2023 yw lleihau ein hallyriadau carbon 25%. Dros y tri degawd nesaf, erbyn 2050 ein nod yw cyflawni gostyngiad ychwanegol o 55%.

Sut byddwn yn mesur ein llwyddiant?

- Bydd allyriadau carbon yn cael eu lleihau - cyrraedd neu ragori ar ein targedau
- Bydd ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel yn cynyddu - cyrraedd neu ragori ar ein targedau
- Bydd addasiadau critigol a mesurau eraill yn cael eu gweithredu
- Bydd effaith y datblygiadau, offer a chyflenwadau newydd a gynlluniwyd ar yr amgylchedd yn fach iawn



# Yr Iaith Gymraeg

Rydym wedi ymrwymo i wasanaethu'n effeithiol y rhai hynny sy'n dewis byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg. O ganlyniad i Safonau'r Gymraeg 2015, y mae Comisiynydd y Gymraeg wedi cyflwyno hysbysiad cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg i Awdurdod Tân ac Achub De Cymru. Cyhoeddir yr **Hysbysiad Cydymffurfio** hwn ar ein gwefan a rhoddir manylion am ba wasanaethau y gall dinasyddion ddisgwyl eu derbyn yn Gymraeg. Rydym yn ceisio ymgysylltu â siaradwyr Cymraeg a dysgwyr er mwyn gwella safon gyffredinol y gwasanaeth a ddarperir, gan gynnwys gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn Gymraeg.

## Lleisiwch eich barn

Rydym bob amser yn chwilio am ffyrdd ystyrlon o wella ein gwasanaethau a chyflwyno gwybodaeth. Er mwyn gwneud hyn rydym am sicrhau bod eich barn yn cael ei hystyried wrth gyflawni ein gweithgareddau a chyflwyno gwybodaeth i chi.

## Fersiynau amgen

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn fersiwn arall, cysylltwch â ni.

## Ysgrifennwch atom

Perfformiad Gwasanaeth a Chyfathrebiadau
Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

## Gwefan

www.decymru-tan.gov.uk

## Cysylltwch â Ni

www.decymru-tan.gov.uk/cysylltu-a-ni

## Galwch ni

01443 232000

@TanDeCymru

@TanDeCymru

@sw_fire_and_rescue

Croesawn ohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg.
Byddwn yn ymateb yn gydradd yn y ddwy iaith ac yn ateb yn eich iaith ddewisol heb oedi.

**Gwasanaeth Tân ac Achub**
De Cymru

South Wales
**Fire and Rescue Service**

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Parc Busnes Forest View, Llantrisant, CF72 8LX

01443 232000
www.decymru-tan.gov.uk

Cynlluniwyd a chynhyrchwyd yn fewnol gan Y Wasg a Chyfathrebiadau 2021 | 3904SPAC